Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru
North Wales Choral Festival

Newyddion yr Ŵyl

Rhifyn 9 - Tachwedd 2010

Llwyddiant 2010

Cyfarwyddwr enillwyr cyffredinol yr ŵyl Choros Amici, Chris Mallinson, gyda Chadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyng Brenda Taylor

Eleni oedd blwyddyn fwyaf llwyddiannus erioed Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru gyda 27 o gorau yn dod trwy ddrysau Venue Cymru ar ddydd Sadwrn 6 Tachwedd. Gyda rhaglen lawn yn dechrau gyda'r Adran Ieuenctid am 10am ac yn cau gyda'r Adran Gorau Meibion fwyaf hyd yn hyn am 5pm, mae'r digwyddiad wedi tyfu cryn dipyn ers ei ffurfio ym 1987. Mae'r trefnwyr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn rhagweld bydd y digwyddiad yn ehangu i lenwi penwythnos cyfan y flwyddyn nesaf!

Prin fod angen dweud felly, bod maint y digwyddiad wedi cyflwyno tasg anodd ar gyfer y beirniaid.

Roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

Adran Ieuenctid:
1af - Côr Ieuenctid Môn
2il - Loreto Secondary School Choir
3ydd - Bradford Girls Choir

Adran Gymysg:
1af - Choros Amici
2il - Cantorion Rhos
3ydd - Côr Rhuthun

Adran Ganu Siop Barbwr:
1af - Affinity
2il - Anvil Chorus
3ydd - Mountain Harmony

Adran Ferched:
1af - The Park Singers
2il - Côr Merched Tonyrefail
3ydd - Cantabile Vocal Ensemble

Adran Gorau Meibion:
1af - Amici Men
2il - Côr Meibion Y Fflint
3ydd - Bolsterstone MVC

Enillydd cyffredinol yr wŷl eleni oedd **Choros Amici**.

Llongyfarchiadau i'n henillwyr ac i bawb a gymerodd rhan ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i benwythnos o Ŵyl Gorawl Gogledd Cymru'r flwyddyn nesaf ar 5-6 Tachwedd, 2011.

Casglwch eich atgofion o Ŵyl Gorawl Gogledd Cymru

Beth am atgoffa'ch hun o ŵyl eleni? Roedd **DE Photo** yno i ddal y nerfau gefn llwyfan, perfformiadau ar y llwyfan a'r cyngerdd gyda'r nos ar gamera. Gallwch gysylltu â nhw'n uniongyrchol i brynu lluniau naill ai ar-lein yn www.dephoto.biz, drwy anfon e-bost i Orders@DEPhoto.co.uk neu ffonio 0333 600 1020.

Mae **Chorum** wedi gwneud recordiad safon uchel o bob perfformiad drwy gydol y dydd. Byddant yn cynnig yr atgof perffaith o'ch profiad o Ŵyl Gorawl Gogledd Cymru 2010, neu'n anrheg Nadolig ardderchog i rywun. Gallwch archebu ar-lein yn www.chorum.co.uk neu dros y ffôn gyda cherdyn debyd neu gredyd - 01902 743565 neu 07968 779008.

Datganiad Diogelu Data

Os nad ydych chi bellach yn dymuno derbyn gwybodaeth gan Ŵyl Gorawl Gogledd Cymru ysgrifennwch atom i Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru, Marchnata CBSC, Bodlondeb, Bangor Road, Conwy, LL32 8DU, neu anfon e-bost i: gwylgorawlgogleddcymru@conwy.gov.uk

Gyda diolch i'n noddwyr: